

Cynllun Adsefydlu Gyrwyr sy'n Yfed: model cymeradwyo cyrsiau a sicrhau ansawdd cyrsiau yng Nghymru

Cymeradwyaeth gychwynnol

Rhaid i ymgeisydd sydd am gael cymeradwyaeth i gynnal cwrs o dan y Cynllun Adsefydlu Gyrwyr sy'n Yfed (y Cynllun) ddarparu'r dystiolaeth sydd ei hangen i ddangos sut mae'n bodloni'r meini prawf penodedig.

Bydd y penderfyniad cychwynnol ar b'un a ddylid cymeradwyo cwrs ai peidio yn cael ei wneud drwy gynnal dadansoddiad desg o dystiolaeth 'hunanardystiedig' a ddarperir gan yr ymgeisydd.

Yna, bydd angen i ddarparwr y cwrs cymeradwy gyflwyno data i Lywodraeth Cymru yn rheolaidd er mwyn gallu rheoli ansawdd yn barhaus ar sail risg.

Cynnwys cyrsiau

Rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o'r canlynol:

- bod cynnwys a deunyddiau dysgu'r cwrs yn cysylltu'n glir â deilliant dymunol Maes Llafur presennol y Cynllun (a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth) ac, yn y pen draw, Safon Gyrru Genedlaethol (Categori B) yr Asiantaeth Safonau Gyrru.
- bod cynnwys y cwrs yn cysylltu â'r modelau damcaniaethol a phroffesiynol a'r egwyddorion dysgu oedolion sy'n sail i'r Maes Llafur

Mae'r cwrs y maent yn bwriadu ei ddarparu yn gallu ymateb yn briodol, mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y cleient, i anghenion dysgu troseddwr:

- gan ystyried arddulliau dysgu gwahanol a lefelau gallu amrywiol
- waeth beth fo'u rhyw, hil, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, gan gyfeirio'n benodol at y grwpiau hynny o fewn poblogaeth yrru categori B sy'n cael eu diffinio fel rhai 'sy'n agored i niwed' (17-18 oed), yr henoed a'r rhai sydd ag anableded dysgu neu gorfforol cydnabyddedig

Trefniadau darparu cyrsiau

Rhaid i ymgeiswyr allu darparu tystiolaeth o'r canlynol:

- mae'r cwrs, gan gynnwys y trefniadau darparu a gweinyddu, yn gyson â'r canllawiau ar gyrsiau'r Cynllun a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar ran Gweinidogion Cymru

- maent yn cyflogi, neu'n gallu defnyddio, digon o hyfforddwyr â chymwysterau addas i ddarparu'r cwrs arfaethedig i safon briodol yn gyson
- mae ganddynt ddigon o adnoddau, gan gynnwys safleoedd sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau iechyd a diogelwch perthnasol, sy'n addas at ddibenion dysgu ac sy'n rhoi lefelau priodol o gyfrinachedd i bawb sy'n cymryd rhan, i ateb y galw ym mhob ardal benodedig a nodir yn eu cais
- mae ganddynt gynlluniau digonol ar waith i sicrhau diogelwch pob aelod o staff sy'n ymwneud â darparu'r cyrsiau ac ateb y galw ym mhob ardal ddaearyddol benodedig a nodir yn eu cais
- byddant yn defnyddio dull cydnabyddedig o werthuso'r cwrs a'r hyfforddwyr (fel model gwerthuso hyfforddiant pedair lefel Kirkpatrick) er mwyn cadarnhau o leiaf y cafwyd Adwaith (lefel 1) a bod Dysgu (lefel 2) wedi digwydd, gan ddangos bod pob troseddwr wedi meithrin dealltwriaeth sylfaenol

Mae prosesau ar waith i sicrhau bod y staff i gyd yn:

- deall eu dyletswydd gofal, a therfynau eu cymhwysedd, mewn perthynas ag unigolion sy'n gofyn am ragor o gymorth neu sy'n cyflwyno tystiolaeth eu bod yn yfed mewn ffordd niweidiol neu eu bod yn ddibynnol ar alcohol ac a allai gael budd o gymorth meddygol
- gwybod sut i roi arweiniad i unigolion sy'n gofyn am ragor o gymorth

DS Nid yw'n ofyniad ffurfiol y dylai pob aelod o staff allu dangos bod ganddo'r ystod lawn o'r cymwyseddau sydd eu hangen i ddarparu cyrsiau o dan y Cynllun. Er enghraifft, gellir cyflogi unigolion i ddarparu elfennau penodol o'r maes llafur e.e. gwybodaeth am ystadegau damweiniau. O dan yr amgylchiadau hyn, rhaid i ymgeiswyr egluro sut y byddant yn defnyddio staff unigol er mwyn sicrhau bod holl ofynion y maes llafur yn cael eu bodloni.

Trefniadau gweinyddu cyrsiau

Rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o'r prosesau sydd ar waith i dderbyn cwynion gan gwsmeriaid ac ymateb iddynt.

Rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth bod ganddynt brosesau a gweithdrefnau addas ar waith i wneud y canlynol:

- cofnodi nifer y troseddwr a gaiff eu hatgyfeirio o'r llysoedd
- cofnodi nifer y troseddwr atgyfeiriedig sydd wedi trosglwyddo o un darparwr cwrs i un arall
- cofnodi canran y troseddwr atgyfeiriedig sy'n dechrau'r cwrs
- nodi nifer y troseddwr atgyfeiriedig sy'n cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus
- nodi'r rhesymau y mae troseddwr atgyfeiriedig yn eu rhoi dros adael y cwrs cyn iddo orffen
- cofnodi cwynion sy'n dod i law a sut y cânt eu trin

- cofnodi canfyddiadau gwaith i werthuso cyrsiau a hyfforddwyr a champau gweithredu cysylltiedig, a llunio crynodeb ohonynt
- sicrhau bod pob cofnod o'r fath yn cael ei gadw'n gywir ac yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol
- sicrhau y bydd y data a gesglir drwy'r prosesau hyn yn cael eu cadw yn unol â gofynion deddfwriaeth Diogelu Data

Personau priodol

Rhaid i ymgeiswyr ddarparu'r canlynol:

- manylion am statws cyfreithiol y sefydliad sy'n gwneud y cais
- manylion am y personél rheoli allweddol o fewn y sefydliad sy'n gwneud y cais, sy'n ddigonol i fodloni Llywodraeth Cymru nad oes unrhyw faterion eraill a allai eu datgymhwyso rhag bod yn bersonau priodol sy'n gyfrifol am gwrs cymeradwy o dan y Cynllun
- manylion o leiaf un uwch reolwr sy'n byw yn y DU ac a fydd yn brif bwynt cyswllt o ddydd i ddydd at ddibenion rheoli'r rhaglen

Fel arfer, ni fydd Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau gael eu harchwilio cyn y broses gymeradwyo gychwynnol, neu fel rhan ohoni.

Bydd y swyddog achos sy'n gyfrifol am gynnal y dadansoddiad desg o'r dystiolaeth yn cyflwyno ei argymhelliad ynghylch cymeradwyo i'r person priodol sy'n gyfrifol am gymeradwyo yn Llywodraeth Cymru.

Gall Llywodraeth Cymru benderfynu gwrthod cymeradwyo cwrs, neu gymeradwyo cwrs ar yr amod ei fod yn bodloni amodau arbennig.

Os yw'r person priodol sy'n gyfrifol am gymeradwyo yn Llywodraeth Cymru yn teimlo na all wneud penderfyniad ar sail yr argymhelliad, er enghraifft, o ganlyniad i ansicrwydd ynghylch p'un a yw'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn bodloni'r meini prawf cymeradwyo, gall ddefnyddio gwasanaethau arbenigwr priodol. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o achosion, byddai unrhyw faterion o'r fath yn cael eu datrys yn ystod yr adolygiad cychwynnol o'r dystiolaeth.

Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno penderfyniad yn ysgrifenedig ar bob cais am gymeradwyaeth.

Archwiliadau cychwynnol a dilynol o ganolfannau

Bydd Llywodraeth Cymru (neu asiantiaid penodedig), fel arfer, yn cynnal archwiliadau cychwynnol o ganolfannau, o fewn 12 mis i gymeradwyo darparwr i ddarparu cyrsiau o dan y Cynllun. Bydd cost yr archwiliad hwn wedi'i chynnwys yn ffi'r cais (am gymeradwyaeth).

Bydd Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu ei rhaglen archwilio canolfannau ar sail y wybodaeth sydd ar gael iddi. Er enghraifft, os nad yw Llywodraeth

Cymru wedi gweld tystiolaeth o gymhwysedd blaenorol wrth ddarparu cyrsiau o dan y Cynllun neu gyrsiau cysylltiedig, mae'r darparwr yn debygol o gael ei archwilio cyn sefydliad sydd wedi dangos cymhwysedd blaenorol wrth ddarparu cwrs o dan y Cynllun neu gwrs cysylltiedig.

Lle bo darparwr wedi dangos cymhwysedd blaenorol wrth ddarparu cyrsiau o dan y Cynllun, efallai na chynhelir archwiliad; cyn belled ag y bo Llywodraeth Cymru yn hyderus nad oes unrhyw agwedd ar y ddarpariaeth wedi newid yn sylweddol.

Wrth archwilio canolfan, bydd y swyddog achos yn cadarnhau'r wybodaeth a roddwyd yng nghais y darparwr ac yn ceisio rhoi adborth ar ddatblygiad.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r darparwr ar ddyddiad i gynnal yr archwiliad, ac yn amlinellu'r hyn yr hoffai ei weld yn ystod yr archwiliad.

Bydd swyddog achos sy'n archwilio canolfan yn llunio adroddiad ar ei ganfyddiadau o fewn 10 diwrnod gwaith. Bydd y darparwr yn cael copi o'r adroddiad er gwybodaeth iddo.

Bydd yr adroddiad ar archwiliad o ganolfan yn dangos p'un a yw'r ddarpariaeth:

- yn cydymffurfio
- ddim yn cydymffurfio (yn amodol ar feysydd i'w datblygu)

Bydd cynnwys yr adroddiadau ar archwiliadau o ganolfannau yn gyfrinachol i'r darparwr dan sylw a Llywodraeth Cymru.

Os bydd swyddog achos yn nodi nad yw darpariaeth yn cydymffurfio, bydd yn hysbysu'r darparwr o'r gofynion datblygu y bydd yn rhaid eu bodloni er mwyn datrys unrhyw broblemau, a dyddiad ar gyfer gwneud y newidiadau hynny.

Dylid cyflwyno tystiolaeth o gydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion datblygu yn ysgrifenedig neu'n electronig o fewn yr amserlen benodedig.

Sicrhau ansawdd

Gall Llywodraeth Cymru ddilyn rhagor o brosesau sicrhau ansawdd, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr ddarparu gwybodaeth ychwanegol neu gynnal archwiliadau ychwanegol, naill ai yn y ganolfan weinyddol neu'r manau lle darperir cyrsiau, yn ystod cyfnod cymeradwyaeth y darparwr.

Bydd gofynion pellach i ddarparu gwybodaeth neu gynnal archwiliadau pellach o ganolfannau wedi'u harwain gan dystiolaeth a'u llywio gan archwiliadau cychwynnol a dilynol o ganolfannau a ffactorau perthnasol eraill, er enghraifft, cwynion a wnaed i Lywodraeth Cymru, anghysondebau mewn adroddiadau rhifol neu ariannol, newidiadau i strwythur sefydliadau, newidiadau i'r hyfforddiant a ddarperir neu newid llwyr neu rannol mewn

perchenogaeth. Cyfrifoldeb darparwr y cwrs cymeradwy yw cyflwyno'r wybodaeth sydd ei hangen i leddfu unrhyw bryderon a allai godi.

Caiff amserlen yr ymweliadau sicrhau ansawdd (gan gynnwys archwiliadau sicrhau ansawdd a gynlluniwyd a rhai dirybudd, naill ai yn y ganolfan weinyddol a/neu'r mannau lle darperir cyrsiau) ei phennu gan Lywodraeth Cymru yn unol â meini prawf sy'n seiliedig ar risg. Fodd bynnag, dylai pob darparwr ddisgwyl cael o leiaf un archwiliad sicrhau ansawdd yn ystod cyfnod ei gymeradwyaeth.

Fel arfer, bydd Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r darparwr ar ddyddiad priodol i gynnal archwiliad o ganolfan neu fan darparu cwrs, ac yn amlinellu'r hyn yr hoffai ei weld yn ystod yr archwiliad.

Bydd unrhyw archwiliad o ganolfan neu fan darparu cwrs yn para cyhyd ag sydd angen i alluogi'r swyddog achos i fod yn hyderus yn ei gasgliadau, ac i'r darparwr gyflwyno unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol yn ei farn ef/hi.

Lle bo rheswm gan Lywodraeth Cymru i gredu bod rhyw agwedd ar gwrs yn cael ei darparu neu'i rheoli'n amhriodol, ceidw'r hawl i gynnal archwiliadau dirybudd (naill ai yn y ganolfan weinyddol a/neu'r mannau lle darperir cyrsiau).

Gall archwiliadau o ganolfannau neu fannau darparu cyrsiau ymdrin ag unrhyw agwedd ar y ddarpariaeth, ond bydd Llywodraeth Cymru yn cael ei harwain gan dystiolaeth. Ni fydd Llywodraeth Cymru, fel arfer, yn gofyn i'r darparwr gyflwyno dogfennau ychwanegol heblaw am y rhai y cytunwyd arnynt fel rhan o'r gofynion adrodd, oni bai bod ganddi reswm clir dros wneud hynny.

Bydd yr adroddiad sicrhau ansawdd yn dangos p'un a yw'r ddarpariaeth yn:

- **rhagorol** - gwasanaeth sy'n rhagori llawer mwy ar y gofynion sylfaenol i ddefnyddwyr
- **da** - gwasanaeth sy'n rhagori ar y gofynion sylfaenol i ddefnyddwyr yn gyson
- **boddfaol** - gwasanaeth sy'n bodloni'r gofynion sylfaenol i ddefnyddwyr yn unig
- **annigonol** - gwasanaeth nad yw'n bodloni'r gofynion sylfaenol i ddefnyddwyr

Os bydd swyddog achos yn nodi bod darpariaeth yn 'Annigonol', bydd yn hysbysu'r darparwr o'r newidiadau y bydd yn rhaid eu gwneud er mwyn datrys unrhyw broblemau, a dyddiad ar gyfer gwneud y newidiadau hynny.

Yn achos gradd 'Annigonol', os na chaiff y newidiadau gofynnol eu gwneud erbyn y dyddiad y cytunwyd arno, gall Llywodraeth Cymru gyhoeddi hysbysiad 28 diwrnod sy'n datgan ei bod yn bwriadu atal neu dynnu cymeradwyaeth i ddarparu cyrsiau o dan y Cynllun yn ôl, yn dibynnu ar ddifrifoldeb y canfyddiadau sy'n sail i'r radd, ac unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio.

Dylid cyflwyno tystiolaeth o gydymffurfiaeth ag unrhyw ofynion i newid yn ysgrifenedig neu'n electronig.

Os bydd swyddog achos yn nodi bod darpariaeth yn 'Foddhaol', bydd yn hysbysu'r darparwr o'r datblygiadau a'r camau gweithredu a argymhellir ar gyfer gwella'r ddarpariaeth a deilliannau'r cwrs.

Os bydd Llywodraeth Cymru, fel rhan o archwiliad o ganolfan neu fan darparu cwrs neu drwy wybodaeth neu ymchwiliad arall, yn fodlon bod camymddwyn difrifol wedi digwydd ar ran darparwr y cwrs, neu berson sy'n gweithredu ar ei ran, neu o dan ei gyfarwyddyd, bydd yn tynnu'r gymeradwyaeth yn ôl yn ddi-oed. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn nodi'r rheswm dros dynnu'r gymeradwyaeth yn ôl a natur unrhyw gamymddwyn difrifol lle bo hynny'n briodol.